**Adroddiad ar**

**Little Steps Childcare Centre (Ystradgynlais) Limited**
**d/o Ysgol Bro Tawe**
**Ffordd yr Afon**
**Ystradgynlais**
**Abertawe**
**SA9 1BU**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Manylion Little Steps Childcare Centre (Ystradgynlais) Limited

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Little Steps Child Care Centre (Ystradgynlais) Limited |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Karen James |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Karen Jones |
| Person â gofal | Tracey Morgan |
| Nifer y lleoedd | 51 |
| Ystod oedran y plant | 0-12 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 28 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Rhwng 7.30am a 6.00pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 28/03/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dd/G |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 19/02/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Dyma oedd arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

***Rydym wedi rhoi gwybod i'r personau cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rheoliad 28 a 29 er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno y tro hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol neu sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.***

Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â rheoliad 28, addasrwydd gweithwyr: y rheswm dros hyn yw nad oedd yr arweinwyr wedi sicrhau eu bod wedi adolygu unrhyw eirdaon ar gyfer dau ymarferydd a dim ond un geirda ar gyfer ymarferydd arall.

Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â rheoliad 2, cyflogi staff: y rheswm dros hyn yw nad yw'r staff wedi cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac nad yw ymarferwyr hirsefydlog wedi cael arfarniad blynyddol ers dechrau mis Ionawr 2018.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y plant mwy galluog yn gwneud cynnydd effeithiol wrth ddatblygu eu sgiliau

A2 Adolygu a diweddaru cynnwys y polisi amddiffyn plant, a sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn deall ac yn rhoi pob polisi ar waith bob amser

A3 Gwella'r ddarpariaeth i ddatblygu sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a sgiliau Cymraeg y plant

A4 Cynllunio'n effeithiol i ddatblygu sgiliau'r plant ym mhob maes dysgu yn yr awyr agored

A5 Cadw at y safonau gofynnol cenedlaethol o ran rheolwr ychwanegol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn ac AGC yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn hapus pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Maent yn setlo'n gyflym ac yn mynd ati'n syth i chwarae'n rhydd. Mae gan bron pob plentyn lais cryf. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus wrth fynegi eu syniadau a'u hanghenion wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r plant hŷn bob amser yn cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp yn ddigon da. Mae sawl plentyn yn cynnig ei syniadau'n dda drwy sesiynau mapio meddwl ac mae'r plant sy'n mynd i'r clwb ar ôl ysgol yn cyfrannu at drefnu gweithgareddau ar gyfer yr wythnos yn briodol. Mae bron pob plentyn yn gwneud dewisiadau hyderus ac yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando arno. Er enghraifft, roedd y plant yn dewis y teganau roeddent am chwarae â nhw yn hapus, ac yn gofyn am ragor o fwyd a diod yn hyderus.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda. Maent yn dangos parch i'w gilydd ac yn rhannu adnoddau'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn briodol. Er enghraifft, roeddent yn arllwys eu diodydd eu hunain ac roedd nifer ohonynt yn cyflawni tasgau, megis trefnu rhifau, a hynny heb gymorth. Mae nifer o'r plant yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion. Mae bron pob un o'r plant wedi meithrin cydberthnasau agos â'r ymarferwyr, sy'n eu hadnabod yn dda, ac maent yn gwybod y gallant fynd atynt os bydd angen cymorth arnynt.

Mae bron pob plentyn yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn gweithio'n effeithiol fel grŵp. Er enghraifft, yn ystod yr helfa drysor, gwnaeth y rhan fwyaf o'r plant gydweithio â'i gilydd i ddod o hyd i gardiau wedi'u lamineiddio. Yn ystod amser byrbryd, roedd nifer ohonynt yn trafod eu hoff ganeuon yn frwd. Mae bron pob un o'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, yn gyfforddus ac wedi ymlacio, ac mae hyn yn amlwg pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau eu gweithgareddau. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o'r plant wrth eu bodd â'r gweithgaredd rhifedd a'r helfa drysor. Roedd y plant yn gwichian yn llawn cyffro ac roedd bron pob un ohonynt yn canolbwyntio ar dasg. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn dyfalbarhau'n dda i gyflawni heriau, megis tynnu croen tanjerîns.

**Dysgu (mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd priodol yn eu hamser yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw plant mwy galluog yn gwneud cynnydd digon da ar y cyfan.

Mae bron pob un o'r plant yn siarad yn hyderus â'i gyfoedion a'r oedolion, ac yn cyfleu ei feddwl yn effeithiol, er enghraifft pan fydd yn gofyn am adnoddau ac yn mynegi ei anghenion. Mae nifer o'r plant yn gwrando'n dda ar yr oedolion a'i gilydd mewn grŵp mawr. Fodd bynnag, nid oedd nifer fach o'r plant yn canolbwyntio'n ddigon da nac yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaeth y grŵp cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrando ar oedolyn yn adrodd stori'n dda ac yn ymateb yn briodol. Dewisodd rhai o'r plant lyfrau'n annibynnol yn yr ardal ddarllen. Dewisodd bron pob un o'r plant lyfr roeddent yn ei fwynhau ar gyfer sesiwn darllen

mewn grŵp, ar ôl cael eu hannog gan oedolyn i wneud hynny. Mae bron pob un ohonynt yn trin llyfrau'n ofalus, yn troi tudalennau ac yn edrych ar y cynnwys yn llawn diddordeb. Mae bron pob un o'r plant yn arbrofi â chyfarpar gwneud marciau'n hyderus. Maent yn deall bod gan brint ystyr ac yn gwneud ymdrech dda wrth wneud marciau i gynrychioli llythrennau a rhifau.

Mae sgiliau rhifedd y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda. Er enghraifft, roedd y plant yn rhoi lluniau o anifeiliaid mewn trefn o ran eu maint ac yn defnyddio iaith fathemategol yn hyderus. Roedd y mwyafrif o'r plant yn cyfrif i ugain yn hyderus, megis pan fyddant yn cyfrif faint o blant sy'n bresennol yn y sesiwn. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau adnabod ac ysgrifennu rhifau'n briodol er mwyn nodi'r gwrthrychau y maent yn eu cyfrif. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn copïo patrwm ailadrodd yn ôl maint a lliw yn hyderus pan fyddant yn chwarae ag eirth plastig o wanhaol liw.

Mae nifer o'r plant yn datblygu eu sgiliau datrys problemau'n briodol. Er enghraifft, maent yn ystyried beth y gallent ei ddefnyddio i'w helpu i groesi afon, yn gwneud awgrymiadau da ac yn dod o hyd i adnoddau addas yn annibynnol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio eu sgiliau datrys problemau yn ddigon da ym mhob maes dysgu.

Mae sgiliau corfforol nifer o'r plant yn datblygu'n dda. Roeddent yn dawnsio i gerddoriaeth yn llawn brwdfrydedd, ac roedd y rhan fwyaf o'r plant yn neidio ac yn cydbwyso'n fedrus. Fodd bynnag, nid yw'r plant bob amser yn gwneud cynnydd digon da wrth ddatblygu eu gallu i gydgysylltu a'u sgiliau mewn ffordd systematig. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu sgiliau echddygol manwl yn dda. Er enghraifft, roeddent yn defnyddio cyfarpar gwneud marciau a gefel yn ystod amser byrbryd yn hyderus ac yn fedrus.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o ran eu sgiliau personol a chymdeithasol, ac maent yn datblygu eu sgiliau creadigol yn briodol. Maent yn rhannu'n dda ac wedi meithrin cyfeillgarwch da â'i gilydd a'r ymarferwyr. Mae'r mwyafrif o'r plant yn datblygu eu sgiliau TGCh yn briodol. Maent yn defnyddio llechi electronig a bwrdd gwyn rhyngweithiol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymarfer nac yn ymgorffori eu sgiliau TGCh yn ddigon da dros amser, yn gyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd priodol o ran eu sgiliau Cymraeg. Er enghraifft, roedd nifer ohonynt yn ymuno â chanu caneuon Cymraeg cyfarwydd ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml, megis yn ystod amser tacluso ac eistedd ar y carped. Fodd bynnag, nid yw'r plant yn datblygu eu sgiliau Cymraeg yn ddigon da ar y cyfan.

## Gofal a datblygiad: Digonol

Mae gan yr arweinwyr bolisïau effeithiol ar waith i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys bwyta ac yfed yn iach a gweithgareddau corfforol. At ei gilydd, maent yn rhoi'r polisïau hyn ar waith yn briodol. Er enghraifft, roedd yr ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn darparu prydau cartref iachus ar gyfer y plant. Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn cadw at bolisi hylendid y gwasanaeth ac roedd y plant yn golchi eu dwylo'n aml. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo mesurau diogelwch tân yn briodol drwy gynnal ymarferion tân rheolaidd. Nid yw trefniadau'r sefydliad o ran diogelwch bob amser yn bodloni'r gofynion ac yn peri rhywfaint o bryder. Er

enghraifft, mae polisi amddiffyn plant y lleoliad yn cynnwys manylion cyswllt anghywir ar gyfer yr awdurdod lleol, a gallai hyn olygu oedi pe bai angen gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant.

Roedd bron pob ymarferydd yn rhoi polisi ymddygiad y lleoliad ar waith yn effeithiol ac yn gwobrwyo'r plant yn briodol am ymddwyn yn dda.  Er enghraifft, roedd y plant yn cael sticeri am helpu yn ystod amser cinio, ac mae hyn yn ategu ymddygiad cadarnhaol mewn ffordd addas.  Mae sawl ymarferydd yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn deall eu hanghenion, eu galluoedd a'u dymuniadau unigol yn dda.

Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn trefnu'n briodol er mwyn i'r plant gael amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae.  Er enghraifft, roedd y plant yn mwynhau adnabod anifeiliaid y jyngl, gan gynnwys hipopotamws a rhinoseros.  Mae gan y mwyafrif o'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut a phryd i ymyrryd mewn gweithgareddau er mwyn datblygu chwarae a dysgu'r plant ymhellach.  Fodd bynnag, nid oedd pob ymarferydd yn cadw at gynlluniau gwaith yn effeithiol, gan olygu bod rhai cyfleoedd a gollwyd i'r plant ymgysylltu llawn â'r gweithgareddau.

Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn olrhain cynnydd y plant ac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio ar gyfer camau nesaf y plant o ran chwarae a dysgu mewn ffordd briodol.  Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn olrhain y cynnydd a wnaed gan y plant iau mewn ffordd ddigon effeithiol er mwyn cynllunio ar gyfer eu camau nesaf.

Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion priodol am ddamweiniau, y maent yn eu harchwilio'n fisol ac yn eu ffeilio i gyfeirio atynt yn y dyfodol.  Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gallu trin mân anafiadau'n brydlon.  Er enghraifft, roedd blwch cymorth cyntaf ym mhob ystafell ac roedd gan tua hanner o'r ymarferwyr dystysgrif cymorth cyntaf dilys.  Mae'r ymarferwyr yn helpu'r plant sydd â chyflyrau meddygol yn effeithiol ac yn sicrhau bod ganddynt ganiatâd ysgrifenedig gan y rhieni cyn rhoi meddyginiaethau.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn trefnu amrywiaeth addas o brofiadau dysgu y mae'r plant yn eu mwynhau ac sy'n cwmpasu pob maes dysgu'n briodol dros amser.  Mae'r ymarferwyr yn cydweithio’n dda fel tîm ac mae pob un ohonynt yn cyfrannu eu syniadau a'u hawgrymiadau'n briodol pan fyddant yn trefnu gweithgareddau.  Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn trefnu'n ddigon da i fodloni anghenion pob plentyn.  Er enghraifft, mewn gormod o weithgareddau, roedd y plant mewn grwpiau a oedd yn rhy fawr i ganiatáu i bob plentyn ymgysylltu a chymryd rhan lawn bob amser.  Nid yw trefniadau ar gyfer datblygu sgiliau'r plant yn yr awyr agored wedi'u sefydlu'n ddigon da nac yn cwmpasu pob maes dysgu.

Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi dechrau gwella'r cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau TGCh.  Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r datblygiadau hyn, ac nid yw'r lleoliad yn trefnu i ddatblygu sgiliau TGCh y plant mewn ffordd systematig dros amser yn ddigon da.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd addas ar gyfer y plant er mwyn iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod sesiynau grŵp cyfan. Er enghraifft, roedd yr ymarferwyr yn cyflwyno geiriau ar gyfer y tywydd ac yn cyfri'n Gymraeg yn ystod amser cylch. Serch hynny, nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson drwy'r sesiwn nac yn datblygu geirfa'r plant yn ddigon da. Nid oes digon o gyfleoedd i'r plant weld y Gymraeg wedi'i hysgrifennu nac i fwynhau llyfrau Cymraeg. Mae'r plant yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu eu hunaniaeth ddiwylliannol. Er enghraifft, roeddent yn edrych ar fap o Gymru yn ystod amser cylch ac yn gwybod lle i osod symbol y tywydd ar gyfer eu tref. Roeddent hefyd yn creu cardiau Santes Dwynwen ac yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar gael ymwelwyr i'r lleoliad ac ymweld â'r gymuned er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Maent yn trefnu profiadau dysgu buddiol yn rheolaidd sy'n hyrwyddo datblygiad personol y plant mewn ffordd briodol. Mae hyn yn cynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol. Er enghraifft, roedd y plant wrth eu bodd pan ddaeth yr heddlu ac Ambiwlans Sant Ioan i ymweld â'r lleoliad. Mae cyfleoedd da ar gael i'r plant ddysgu am bethau byw a gofalu amdanynt. Er enghraifft, daeth sw fechan gyda swricatiaid i'r lleoliad a phlannodd y plant flodau yn y gymuned gyda gwirfoddolwyr lleol. Yn ddiweddar, trefnodd yr ymarferwyr i'r plant ymweld â'r cartref gofal lleol i chwarae a dysgu ochr yn ochr â'r bobl hŷn a oedd yn byw yno.

**Yr Amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel, pwrpasol a chroesawgar. Mae drws pob ystafell yn cael ei gloi ac mae gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau na all unrhyw un heb awdurdod ddod i mewn i'r lleoliad. Mae'r arweinwyr yn rhoi mesurau cadarn ar waith i ganiatáu'r rhieni ar y safle ac mae pob ymwelydd yn cofrestru i'r ysgol ac i'r lleoliad. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod y plant yn gadael gyda rhiant neu ofalwr cyfarwydd ar ddiwedd y sesiwn. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn sicrhau bod risgiau diangen i'r plant yn cael eu nodi a'u dileu cyhyd ag y bo'n bosibl.

Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant. Mae adnoddau sy'n addas i'w hanghenion ar gael iddynt yn hawdd. Mae cynllun yr ystafelloedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn dda. Er enghraifft, gwelsom nifer o'r plant yn cael gafael ar deganau o focsys yn annibynnol a diod o'r peiriant dŵr. Mae bachau cotiau wedi'u labelu'n caniatáu i'r plant ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda. Mae'r cynllun yn hyrwyddo dysgu'r cyfnod sylfaen yn briodol.

Mae'r amgylchedd dysgu dan do yn bwrpasol ac yn cynnig cyfleoedd da i'r plant ddysgu. Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn creu amgylchedd dysgu effeithiol sy'n cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu sgiliau sylfaenol. Mae'r ardal awyr agored yn cynnig cyfleoedd chwarae da ond nid yw'r arweinwyr bob amser yn defnyddio'r ddarpariaeth yn ddigon da i ddatblygu sgiliau'r plant.

Mae dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau priodol ar gael i'r plant sy'n addas i'w hoedran a'u cam datblygu gan amlaf, ac sy'n addas i'w hanghenion ac mewn cyflwr da.

At ei gilydd, mae'r arweinwyr wedi creu corneli dysgu effeithiol sy'n cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu sgiliau sylfaenol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol**

Mae'r lleoliad wrthi'n ehangu. Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn ymateb yn briodol i'r heriau sy'n deillio o hyn ac mae ganddynt weledigaeth glir. Mae cyflogi staff newydd a chyflwyno strwythur newydd wedi creu heriau i'r lleoliad, ond mae'r arweinwyr wedi gosod mesurau addas ar waith. Mae bron pob ymarferydd yn cofnodi ei fod yn bresennol yn gywir ar gofrestr y plant. Fodd bynnag, roedd y cofrestrau'n nodi nad oedd y rheolwr yn ychwanegol bob amser, yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae'r arweinwyr yn cadw cofnodion o arfarniadau a sesiynau goruchwylio'r staff, a gwelsom gofnodion hanesyddol a oedd yn nodi bod yr ymarferwyr yn cael eu hannog i adolygu ac ehangu eu harferion. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o gynnal sesiynnau goruchwylio'r staff a gyflogwyd yn ystod y chwe mis diwethaf, ac ni chynhaliwyd arfarniadau ar gyfer y staff hirsefydlog ers mis Ionawr 2018. O ganlyniad, nid yw'r ymarferwyr yn cael cyfleoedd i drafod a gwella eu harferion ar hyn o bryd.

Mae'r arweinwyr yn cyfathrebu'n dda â'r ymarferwyr ac yn rheoli'r lleoliad yn briodol. Maent yn rhannu disgwyliadau addas drwy gynnal cyfarfodydd staff rheolaidd ac maent yn defnyddio dyddiadur yn briodol i gyfleu negeseuon pwysig. Mae hyn yn creu ethos cadarnhaol yn y lleoliad lle mae'r staff a'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb yn adolygu polisïau perthnasol yn rheolaidd, ac mae'r rhain yn gosod gweithdrefnau priodol i'r ymarferwyr eu dilyn. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn llwyddo i sicrhau bod yr holl bolisïau'n ddigon clir i fod yn gwbl effeithiol. Mae'r arweinwyr yn cadw ffeiliau'r staff yn drefnus ar y cyfan. Serch hynny, nid ydynt yn sicrhau bod eu proses recriwtio bob amser yn bodloni'r rheoliadau.

Ceir ysbryd tîm cadarn a gweledigaeth i wella'n barhaus yn y lleoliad. Mae pob ymarferydd yn cyfrannu at wneud newidiadau defnyddiol yn yr amgylchedd dysgu mewn ffordd anffurfiol. Maent yn croesawu cyngor gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu'n brydlon ar awgrymiadau i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r ymarferwyr yn gwerthuso'r rhan fwyaf o agweddau ar addasrwydd y gwaith yn y lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i nodi cryfderau priodol a meysydd i'w gwella. Er enghraifft, roedd y lleoliad wedi nodi bod angen datblygu sgiliau TGCh y plant a gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso'r lleoliad wedi nodi unrhyw feysydd pwysig eraill i'w gwella, megis diwallu anghenion y plant mwy galluog.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r staff yn meddu ar gymwysterau perthnasol a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r ymarferwyr mewn ffordd hyblyg er mwyn sicrhau parhad i'r plant a diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn darparu cyfleoedd da i'r ymarferwyr gwblhau hyfforddiant, megis sesiynau hyfforddi a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys sesiynau hyfforddi penodol i wella sgiliau gwrando'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin cysylltiadau cryf â'r rhieni ac yn rhannu gwybodaeth â nhw'n effeithiol.  Mae cysylltiadau'r lleoliad â'r ysgol yn datblygu'n briodol.  Mae'r ymarferwyr yn cyfarfod â'r athro dosbarth derbyn i rannu gwybodaeth am gyflawniadau'r plant i'w cefnogi wrth iddynt symud ymlaen at gam nesaf eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2019